

Sefyllfaoedd a
gweithdrefnau

Rheoli gwariant ar ymgyrchu rhai nad ydynt yn bleidiau

Mae'r ddogfen hon ar gyfer
ymgyrchwyr cofrestredig nad ydynt yn
bleidiau sydd am ddeall sut i reoli eu
gwariant ar weithgareddau ymgyrchu a
reoleiddir ac adrodd ar ôl yr etholiad

Ffurflenni y gall fod eu hangen
arnoch:

TP4(i) / TP4 (ii)

Cynnwys:

Beth sy'n cyfrif fel gwariant

Rhannu gwariant

Rheoli gwariant ar ymgyrchu

Gweithio gydag ymgyrchwyr eraill

Cofnodi gwariant ar ymgyrchu

Adrodd ar ôl yr etholiad

Cyfieithiadau a fformatau eraill

I gael gwybodaeth am sut i gael y cyhoeddiad hwn mewn iaith arall, neu mewn print bras neu Braille, cysylltwch â'r Comisiwn Etholiadol:

Ffôn: 020 7271 0500

E-bost: cyhoeddiadau@comisiwnetholiadol.org.uk

Termau ac ymadroddion a ddefnyddiwn

Rydym yn defnyddio '**rhaid**' wrth gyfeirio at ofyniad cyfreithiol neu reoliadol penodol. Rydym yn defnyddio '**dylai**' ar gyfer eitemau sydd yn arfer da gofynnol yn ein barn ni, ond nad ydynt yn ofynion cyfreithiol.

Nid oes rhaid i chi ddilyn y canllawiau hyn, ond os gwnewch hynny, byddwch fel arfer yn gwneud digon i gydymffurfio â'r gyfraith.

Ein dull gorfodi

Mae'r Comisiwn yn rheoleiddio cyllid a gwariant gwleidyddol mewn modd sy'n effeithiol, cymesur, a theg. Rydym yn ymrwymedig sicrhau bod y rheiny a reoleiddiwn â dealltwriaeth glir o'u rhwymedigaethau rheoleiddio trwy ein canllawiau a'n gwasanaeth cyngor. Os nad ydych yn siŵr sut mae'r rheolau hyn yn gymwys atoch chi, ffoniwch ni am gyngor. Rydym yma i'ch helpu, felly cysylltwch â ni.

Rydym yn defnyddio cyngor a chanllawiau mewn modd rhagweithiol i sicrhau cydymffurfiaeth. Ac rydym yn cymryd camau gorfodi, gan ddefnyddio ein pwerau a'n cosbau ymchwilio, lle bo'n angenrheidiol a chymesur gwneud felly, er mwyn bodloni ein nodau a'n hamcanion gorfodi.

Os nad ydych yn cydymffurfio â gofynion cyfreithiol neu reoleiddiol, gallech chi neu eich sefydliad fod yn destun cosbau sifil neu droseddol. Mae rhagor o wybodaeth am rôl reoleiddiol y Comisiwn ar gael trwy

<https://www.electoralcommission.org.uk/cy/pwy-ydym-ni-a-beth-rydym-yn-ei-wneud/gorfodi>

Rheoli gwariant ar ymgyrchu rhai nad ydynt yn bleidiau

Ar gyfer pwy y mae'r ddogfen hon:

Ymgyrchwyr cofrestredig nad ydynt yn bleidiau mewn etholiadau sydd angen deall sut i reoli eu gwariant ar weithgareddau ymgyrchu a reoleiddir.

Mae hyn yn cwmpasu:

- Beth sy'n cyfrif fel gwariant ar ymgyrchu a reoleiddir
- Rhannu gwariant
- Gwariant tybiannol
- Gweithio gyda phlaid neu ymgeisydd
- Gweithio gydag ymgyrchwyr eraill nad ydynt yn bleidiau
- Priodoli gwariant
- Rheoli eich gwariant ar ymgyrchu a reoleiddir
- Cofnodi gwariant ar ymgyrchu a reoleiddir
- Adrodd ar ôl yr etholiad

Dogfennau cysylltiedig:

- [Trosolwg o ymgyrchu gan rai nad ydynt yn bleidiau a reoleiddir](#)
 - [Trosolwg o gyfrifon ar gyfer ymgyrchwyr nad ydynt yn bleidiau](#)
 - [Trosolwg o roddion ar gyfer ymgyrchwyr nad ydynt yn bleidiau](#)
 - [Yr hyn a ganiateir ar gyfer ymgyrchwyr nad ydynt yn bleidiau](#)
 - [Papur Arbenigol: Rhannu gwariant ar ymgyrchu](#)
 - [Etholiad cyffredinol Senedd y DU: Adrodd cyn y bleidlais ar gyfer ymgyrchwyr nad ydynt yn bleidiau](#)
 - [Etholiad cyffredinol Senedd y DU: ymgyrchu etholaethol wedi'i dargedu](#)
 - [Etholiad cyffredinol Senedd y DU: Trosolwg o gyfrifon ar gyfer ymgyrchwyr nad ydynt yn bleidiau](#)
 - [Etholiad cyffredinol Senedd y DU: Targedu eich gwariant i gefnogi plaid wleidyddol](#)
-

Crynodeb

O dan Ddeddf Pleidiau Gwleidyddol, Etholiadau a Refferenda 2000 (PPERA), mae rheolau ar faint y gall ymgyrchwyr nad ydynt yn bleidiau ei wario ar weithgareddau ymgyrchu a reoleiddir yn y cyfnod cyn etholiadau ac adrodd ar wariant ar ôl yr etholiad.

Mae'r canllawiau hyn yn esbonio sut i reoli eich gwariant ar weithgareddau ymgyrchu a reoleiddir ac adrodd ar ôl yr etholiad.

Cyflwyniad

O dan Ddeddf Pleidiau Gwleidyddol, Etholiadau a Refferenda 2000 (PPERA), mae terfynau ar faint y gall ymgyrchwyr nad ydynt yn bleidiau ei wario ar 'weithgareddau ymgyrchu a reoleiddir' yn ystod y cyfnod cyn etholiad.

O dan PPERA, caiff gwariant ar weithgareddau penodol ei reoleiddio os gellir ystyried yn rhesymol fod y gweithgaredd wedi'i fwriadu i ddylanwadu ar bleidleisiau pobl. Gelwir y rhain yn 'weithgareddau ymgyrchu a reoleiddir'.

Os ydych wedi cofrestru â ni, bydd angen i chi roi gwybod i ni am eich gwariant ar weithgareddau ymgyrchu a reoleiddir ar ôl yr etholiad os byddwch yn gwario mwy nag £20,000 yn Lloegr neu £10,000 yng Nghymru, yr Alban neu Ogledd Iwerddon. Mae'r canllawiau hyn yn egluro sut y dylech reoli eich gwariant fel y gallwch roi gwybod am eich gwariant yn briodol ar ôl yr etholiad.

Rhaid i ymgyrchwyr cofrestredig nad ydynt yn bleidiau hefyd ddilyn y rheolau ar y rhoddion y gallant eu derbyn.

Beth sy'n cyfrif fel gwariant ar ymgyrchu a reoleiddir?

Mae rheolau ymgyrchu'r rhai nad ydynt yn bleidiau yn gymwys i wariant ar yr hyn a elwir yn 'weithgarwch ymgyrchu a reoleiddir'. Gall y gweithgareddau ymgyrchu canlynol gael eu rheoleiddio:

- Ilunio neu gyhoeddi deunydd etholiad (fel taflenni, hysbysebion a gwefannau) sydd ar gael i'r cyhoedd neu ran o'r cyhoedd
- canfasio, neu ymchwil i'r farchnad lle ceisir barn neu wybodaeth gan aelodau o'r cyhoedd (fel banciau ffôn)
- cynadleddau i'r wasg a digwyddiadau i'r cyfryngau a drefnir gan eich sefydliad neu ar eich rhan
- cludo personau i unrhyw le neu leoedd gyda'r nod o gael cyhoeddusrwydd ar gyfer eich ymgyrch
- ralfiau cyhoeddus neu ddigwyddiadau cyhoeddus eraill (heblaw am eich cynhadledd flynyddol a rhai gorymdeithiau cyhoeddus yng Ngogledd Iwerddon)

Caiff y gwariant ar unrhyw rai o'r gweithgareddau hyn ei reoleiddio os gellir ystyried yn rhesymol mai bwriad y gweithgarwch yw dylanwadu ar bleidleiswyr i bleidleisio dros neu yn erbyn plaid wleidyddol, neu gategorïau o ymgeiswyr, gan gynnwys ymgyrchoedd ar bolisiâu neu faterion sy'n gysylltiedig iawn â phlaid benodol neu gategori o ymgeiswyr.

Gelwir hyn yn 'wariant ar ymgyrchu a reoleiddir'. Dylech nodi ei fod yn cynnwys:

Eitemau a brynwyd cyn y cyfnod a reoleiddir

Weithiau efallai y byddwch yn prynu ac yn talu am eitemau neu wasanaethau a ddefnyddir fel rhan o'ch gweithgarwch ymgyrchu a reoleiddir cyn i gyfnod a reoleiddir ddechrau.

Bydd gwariant yr eir iddo cyn i'r cyfnod a reoleiddir ddechrau yn cyfrif tuag at eich terfyn gwariant os defnyddiwch yr eitem neu'r wasanaeth yn ystod y cyfnod a reoleiddir.

Important

Nid yw gweithgarwch ymgyrchu a reoleiddir yn cynnwys:

- cynadleddau blynyddol
- gorymdeithiau cyhoeddus na chyfarfodydd protest yng Ngogledd Iwerddon, lle rhoddwyd hysbysiad o dan Ddeddf Gorymdeithiau Cyhoeddus (Gogledd Iwerddon) 1998
- unrhyw beth (ac eithrio hysbysebion) sy'n ymddangos mewn papur newydd neu ar sianel ddarlledu drwyddedig

Eitemau a roddir am ddim neu am bris gostyngol

Gall gwerth llawn eitemau neu wasanaethau a roddwyd i chi am ddim neu am bris gostyngol anfasnachol gyfrif tuag at eich terfyn gwariant hefyd. Am ragor o wybodaeth, gweler 'Gwariant tybiannol' ar dudalen 16.

Pa gostau a gwmpesir mewn perthynas â gweithgareddau ymgyrchu a reoleiddir?

Bydd unrhyw gostau (yn cynnwys costau staff) sy'n ymwneud â gweithgarwch ymgyrchu a reoleiddir yn cyfrif tuag at eich terfyn gwariant (oni bai bod costau wedi'u heithrio'n benodol - gweler yr adran nesaf ar dudalen 7). Er enghraifft, os ydych yn llunio taflenni neu hysbysebion, rhaid i chi gynnwys y costau dylunio a dosbarthu.

Rhaid i chi hefyd gynnwys gorbenion neu gostau gweinyddol sy'n gysylltiedig â phob gweithgaredd. Er enghraifft, gallai hyn gynnwys biliau ffôn uwch ar gyfer eich swyddfa os ydych yn canfasio fel rhan o'ch ymgyrch. Dylech lunio asesiad gonest a rhesymol o'r swm rydych wedi'i wario, yn seiliedig ar y ffeithiau.

Ni fydd eich holl orbenion neu gostau gweinyddol yn cyfrif fel gwariant ar weithgarwch ymgyrchu a reoleiddir - dim ond y rhai sy'n gysylltiedig â gweithgareddau sy'n dod o dan ystyr gweithgareddau ymgyrchu a reoleiddir. Felly, ni fydd gorbenion na chostau gweinyddol sy'n gysylltiedig â gweithgareddau cyffredinol eich sefydliad, nad ydynt yn ymwneud ag ymgyrchu, yn cyfrif fel gwariant ar weithgarwch ymgyrchu a reoleiddir ac nid oes rhaid rhoi gwybod amdanynt.

Costau staff

Bydd costau staff ar gyfer yr holl weithgarwch ymgyrchu a reoleiddir yn cyfrif tuag at y terfyn gwariant. Os oes gennych aelod o staff sy'n gweithio ar weithgarwch ymgyrchu a reoleiddir yn ogystal â gwaith eich sefydliad arferol, bydd angen i chi gyfrif cyfran o gyflog yr aelod o staff sy'n adlewyrchu'r amser a dreuliwyd yn gweithio ar y gweithgareddau ymgyrchu a reoleiddir.

Os oes gan eich sefydliad ffordd sefydledig o bennu'r costau hyn ar gyfer gwaith arall eisoes, gallwch benderfynu cyfrifo'r

Important

Rhaid i bob gostau gynnwys TAW, hyd yn oed os gallwch adennill taliadau TAW.

Pan fyddwch yn llenwi'r ffurflen gwariant, rhaid i chi gynnwys faint rydych yn ei wario ar bob categori o weithgarwch ymgyrchu a reoleiddir. Os bydd eitem o wariant i'w gweld yn perthyn i fwy nag un categori, dylech ei chynnwys yn y categori sydd i'w weld yn gweddu orau.

costau yr eir iddynt gan staff mewn perthynas â gweithgareddau ymgyrchu a reoleiddir yn yr un ffordd.

Ym mhob achos, dylech wneud asesiad gonest a rhesymol o gyfran y costau staff y gellir ei phriodoli'n deg i'ch gwariant ar weithgareddau ymgyrchu a reoleiddir.

Er mwyn eich helpu i gynllunio eich gwariant, dylech chi a'r aelod o staff gytuno ar amcangyfrif rhesymol o amser y mae'n debygol o'i dreulio ar weithgareddau ymgyrchu a reoleiddir. Dylech ofyn i'r aelod o staff gadw cofnod o'r amser a gaiff ei dreulio mewn gwirionedd ar weithgarwch ymgyrchu a reoleiddir a'ch diweddarau os yw'n treulio cryn dipyn yn fwy o amser na'r hyn y cytunwyd arno'n wreiddiol. Dylai hyn eich helpu i sicrhau nad ydych yn mynd uwchlaw'r terfyn gwariant.

Os bydd unrhyw un o'ch staff ynghlwm wrth fwy nag un gweithgaredd ymgyrchu a reoleiddir, dylech wneud asesiad gonest a rhesymol o'r holl amser mae'n ei dreulio ar yr holl weithgareddau ymgyrchu gyda'i gilydd. Er enghraifft, os yw aelod o staff yn gyfrifol am drefnu cynhadledd i'r wasg a chynhyrchu taflenni, nid oes angen i chi gofnodi'r amser a dreulir ar bob gweithgaredd.

Ar eich ffurflen gwariant ar ôl yr etholiad, rhaid i chi ddatgan cyfanswm costau staff eich sefydliad yr aed iddynt mewn perthynas â'ch holl weithgareddau a reoleiddir.

Pa wariant nad yw'n cyfrif tuag at eich terfyn gwariant?

Dim ond gwariant ar weithgarwch ymgyrchu a reoleiddir sy'n cyfrif tuag at eich terfyn gwariant a dim ond gwariant o'r fath y mae'n rhaid rhoi gwybod amdano ar ôl yr etholiad.

Nid yw rhai costau sy'n gysylltiedig â gweithgarwch ymgyrchu a reoleiddir yn cyfrif tuag at eich terfyn gwariant. Mae'r rhain yn cynnwys:

- costau darparu diogelwch mewn rali gyhoeddus neu ddiwyddiad cyhoeddus
- treuliau cyfieithu deunydd Cymraeg neu Saesneg i'r naill iaith neu'r llall
- treuliau rhesymol y gellir eu priodoli'n rhesymol i anabledd unigolyn
- amser gwirfoddolwyr gan gynnwys amser a dreulir gan eich staff nad ydych yn eu talu amdano
- gweithgareddau ar gyfer eich aelodau neu gefnogwyr ymrwymedig
- costau teithio neu lety pobl sy'n gysylltiedig â'r gweithgarwch a reoleiddir os nad ydych yn eu had-dalu
- unrhyw beth sy'n cyfrif fel gwariant ar ymgyrchu gan dreuliau etholiad plaid wleidyddol gofrestrdig neu ymgeisydd

Amser gwirfoddolwyr

Nid oes angen i chi gynnwys yr amser a dreulir ar weithgarwch ymgyrchu a reoleiddir gan wirfoddolwyr. Fodd bynnag, caiff arian a gaiff ei wario ar unrhyw adnoddau y byddwch yn eu darparu i'ch gwirfoddolwyr gyflawni gweithgareddau ymgyrchu a reoleiddir ei gynnwys. Er enghraifft, os byddwch yn llogi bws mini i gludo gwirfoddolwyr tra'u bod yn canfasio, bydd cost llogi'r bws yn cyfrif tuag at y terfyn gwariant.

Weithiau efallai na fyddwch yn siŵr a yw rhywun yn wirfoddolwr neu a ddylai ei amser gael ei drin fel gwariant tybiannol. Er enghraifft, efallai eu bod yn cynnig gwasanaethau tebyg yn broffesiynol i'r rhai y maent yn eu cyflawni i chi.

Mae unigolyn yn debygol o fod yn wirfoddolwr, er enghraifft, os nad yw ei gyflogwr yn talu am yr amser y mae'n ei dreulio ar

eich ymgyrch (oni bai ei fod yn gwneud hynny yn ystod ei wyliau blynyddol arferol).

Os bydd yn defnyddio cyfarpar neu ddeunyddiau arbenigol, dylech ystyried a yw'r defnydd ohonynt yn wariant tybiannol, gan ddefnyddio'r egwyddorion yn yr adran ar dudalen 16.

Gweithgareddau ar gyfer eich aelodau a'ch cefnogwyr ymrwymedig yn benodol

Yn gyffredinol, nid ystyrir bod gweithgareddau ar gyfer eich aelodau neu'ch cefnogwyr ymrwymedig yn benodol yn weithgarwch ymgyrchu a reoleiddir ac nid oes rhaid i chi gyfrif am unrhyw wariant ar hyn. Mae hyn yn gymwys i'r canlynol:

- nid yw deunydd rydych yn ei anfon yn benodol at eich aelodau neu'ch cefnogwyr ymrwymedig yn cyfrif fel deunydd etholiad, ar yr amod ei fod yn ymdrin â materion sy'n dod o dan nodau ac amcanion eich sefydliad
- gwaith canfasio neu ymchwil i'r farchnad a gynhelir gyda'ch aelodau neu'ch cefnogwyr ymrwymedig yn unig

Efallai y bydd eich sefydliad yn cynnal digwyddiad sydd ond ar gyfer eich aelodau neu'ch cefnogwyr ymrwymedig. Er enghraifft, digwyddiad dan do i'ch aelodau er mwyn helpu i lywio eich ymgyrch nad ydych yn ei hysbysebu nac yn ei hyrwyddo fel arall. Ni fyddai'r gweithgaredd yn cael ei reoleiddio ac nid oes angen i chi gyfrif am y costau.

Mewn rhai amgylchiadau, efallai y bydd angen i chi gyfrif am yr holl gostau yr eir iddynt mewn perthynas â digwyddiad a gynhelir i'ch aelodau neu'ch cefnogwyr ymrwymedig yn unig. Er enghraifft, os bydd eich sefydliad yn cynnal rali i aelodau yn unig mewn man cyhoeddus y gellir yn rhesymol ystyried ei fod yn dylanwadu ar bleidleiswyr, rhaid priodoli'r holl gostau tuag at eich gwariant ymgyrchu a reoleiddir gan mai gweithgaredd ymgyrchu a reoleiddir fydd hwn (hyd yn oed os mai dim ond aelodau o'ch sefydliad fydd yn cymryd rhan yn y rali).

I gael rhagor o wybodaeth am achosion o gyfathrebu â'ch cefnogwyr ymrwymedig ac aelodau o'r cyhoedd, gweler rhannu gwariant ar dudalen 11.

Treuliau cyfieithu deunydd i'r Gymraeg neu o'r Gymraeg

Ni fydd unrhyw gostau ychwanegol yr eir iddynt os bydd deunydd a gyhoeddir gennych yn cael ei gyfieithu o'r Gymraeg i'r Saesneg neu'r ffordd arall yn cyfrif tuag at eich terfyn gwariant. Rhaid i chi wneud asesiad gonest o'r costau sylfaenol os mai dim ond un iaith oedd dan sylw a dylech ddefnyddio hyn i bennu'r costau ychwanegol.

Er enghraifft, rydych yn llunio taflen ddwyieithog sy'n cynnwys fersiynau Cymraeg a Saesneg o'r un testun ac felly mae ychydig dudalennau'n hirach na phetai'r daflen mewn un iaith yn unig. Ni fydd ffi'r cyfieithydd na'r gost o ddylunio, argraffu a phostio'r tudalennau ychwanegol yn cyfrif tuag at eich terfyn gwariant. Bydd unrhyw gostau cyfieithu ar gyfer ieithoedd eraill yn cyfrif tuag at eich terfynau gwariant.

Treuliau yr eir iddynt oherwydd anabledd unigolyn

Hefyd, nid yw unrhyw gostau cymorth ychwanegol ar gyfer pobl anabl sy'n gweithio ar unrhyw weithgareddau a reoleiddir, neu i bobl anabl allu cael mynediad at unrhyw weithgareddau a reoleiddir a drefnir gennych neu gymryd rhan ynddynt, yn cyfrif tuag at eich terfyn gwariant.

Er enghraifft, llunio taflenni ymgyrchu Braille i'w dosbarthu i aelodau dall o'r cyhoedd, neu logi cyfarpar wedi'i addasu fel bod modd i aelodau anabl o'r cyhoedd gymryd rhan mewn digwyddiad cyhoeddus.

Rhannu gwariant

Dim ond gwariant ar weithgarwch ymgyrchu a reoleiddir fydd yn cyfrif tuag at eich terfyn gwariant.

Efallai yr ewch i wariant ar weithgareddau ymgyrchu a reoleiddir a gweithgareddau eraill nas rheoleiddir. O dan yr amgylchiadau hyn, bydd angen i chi rannu eich gwariant er mwyn sicrhau bod y costau cywir yn cyfrif tuag at eich terfyn gwariant.

Yr egwyddor asesu gonest

Ym mhob achos dylech wneud asesiad gonest a rhesymol, yn seiliedig ar y ffeithiau, o gyfran y gwariant y gellir ei phriodoli'n deg i'ch gweithgareddau ymgyrchu a reoleiddir.

Isod ceir rhai enghreifftiau cyffredin o feysydd cymwys:

Gwariant ar weithgareddau a reoleiddir a gweithgareddau eraill

Efallai y bydd angen i chi rannu eich costau rhwng y gweithgareddau hynny sy'n cyfrif fel gweithgareddau ymgyrchu a reoleiddir a'r rhai nad ydynt.

Er enghraifft:

Os byddwch yn cyhoeddi deunydd sy'n cynnwys gwybodaeth gyffredinol am eich sefydliad yn ogystal â deunydd etholiad:

Yn gyntaf, bydd angen i chi weithio allan faint o'r cyhoeddiad sy'n cynnwys deunydd etholiad. Yna, dylech gymhwyso'r gyfran honno at yr holl gostau cysylltiedig, fel dylunio, argraffu a dosbarthu.

Rydych yn gwario £6,000 ar lunio ac argraffu taflen. Rydych yn gweithio allan bod chwarter yn cyfrif fel deunydd etholiad. Felly, dylech gyfrif chwarter o'r holl gostau tuag at eich gwariant ar weithgarwch ymgyrchu a reoleiddir. Bydd hyn yn £1,500.

Os ydych yn trefnu digwyddiad cyhoeddus lle mai dim ond rhan o'r cynnwys fydd yn cyfrif am wariant a reoleiddir:

Rydych yn cynnal digwyddiad diwrnod o hyd lle mai dim ond hanner y diwrnod fyddai'n cynnwys gweithgarwch a reoleiddir. Rydych yn gwario £10,000 ar logi safle a chostau eraill. Bydd hanner y swm hwn yn cyfrif tuag at eich gwariant ar weithgarwch ymgyrchu a reoleiddir.

Gwariant ar weithgareddau cyn ac yn ystod y cyfnod a reoleiddir

Efallai y bydd angen i chi hefyd rannu eich costau rhwng gweithgareddau ymgyrchu a reoleiddir cyn i'r cyfnod a reoleiddir ddechrau, a'r rhai a gynhelir yn ystod y cyfnod hwnnw.

Er enghraifft:

Os byddwch yn canfasio cyn ac yn ystod y cyfnod a reoleiddir:

Rydych yn gwneud gwaith canfasio ddeufis cyn y cyfnod a reoleiddir a deufis ar ôl y cyfnod hwnnw.

Dim ond y costau sy'n gysylltiedig â'r gwaith canfasio a wneir gennych yn ystod y cyfnod a reoleiddir fydd yn cyfrif fel gwariant ar weithgarwch ymgyrchu a reoleiddir. Felly, er mwyn pennu'r gost i'w chofnodi, dylech rannu'r holl gostau yn eu hanner.

Os byddwch yn ychwanegu ardal mewn perthynas â'ch ymgyrch ar eich gwefan cyn i'r cyfnod a reoleiddir ddechrau, gan barhau i'w ddefnyddio ar ôl iddo ddechrau:

Gan dybio bod yr ardal ar eich gwefan yn cael ei rheoleiddio fel deunydd etholiad, bydd angen i chi rannu costau'r gwaith dylunio, gwe-letya a chostau perthnasol eraill rhwng y ddau gyfnod.

Os yw'r gwaith dylunio a chostau eraill yn £9,000, a'ch bod yn defnyddio'r ardal am gyfnod o 6 mis, y gost fesul mis fydd $£9,000 \div 6 = £1,500$ y mis.

Os bydd y cyfnod a reoleiddir yn cwmpasu'r 4 mis olaf, yna:

Cyfnod a reoleiddir (misoedd) x cost/mis = cost y cyfnod a reoleiddir: $4 \times \text{£}1,500 = \text{£}6,000$ i'w gofnodi'n wariant ar weithgarwch ymgyrchu a reoleiddir

Gwariant ar weithgareddau ar gyfer eich aelodau neu'ch cefnogwyr ymrwymedig

Efallai y bydd angen i chi rannu eich costau ar gyfer y gweithgareddau hynny sy'n cynnwys aelodau o'r cyhoedd a'ch aelodau neu'ch cefnogwyr ymrwymedig. Rhaid i chi gyfrif am y gyfran o gostau a warir ar y cyhoedd a'i chofnodi'n wariant ar weithgarwch ymgyrchu a reoleiddir.

Er enghraifft:

Os byddwch yn anfon deunydd etholiad at eich aelodau neu'ch cefnogwyr ymrwymedig yn ogystal ag aelodau o'r cyhoedd:

Dylech rannu cost y gwaith o ddylunio, argraffu a dosbarthu'r deunydd yn seiliedig ar y gyfran a anfonir at aelodau o'r cyhoedd.

Rydych yn gwario £12,000 ar lunio ac argraffu maniffesto etholiadol a fyddai'n cael ei reoleiddio. Rydych yn gweithio allan eich bod wedi anfon traean at eich aelodau a'r gweddill at aelodau o'r cyhoedd. Bydd dwy ran o dair o'r holl gostau (£8,000) yn cyfrif tuag at eich terfyn gwariant.

Os byddwch yn gwneud gwaith canfasio gyda'ch aelodau neu'ch cefnogwyr ymrwymedig yn ogystal ag aelodau o'r cyhoedd:

Dylech rannu'r costau dan sylw yn seiliedig ar y gyfran a wneir gydag aelodau o'r cyhoedd.

Rydych yn gwario £14,000 yn cyflogi ymgynghorwyr ymchwil a £6,000 arall ar gostau galwadau. Rydych yn dewis un rhan o bump o'r rheini a gaiff eu canfasio o blith rhestr o'ch aelodau, tra bod y gweddill yn aelodau o'r cyhoedd sy'n byw mewn ardaloedd penodol. Rhaid i bedair rhan o bump o'r holl gostau (£16,000) gyfrif tuag at eich gwariant ar weithgarwch ymgyrchu a reoleiddir.

Os bydd eich digwyddiad cyhoeddus neu rali yn cynnwys eich aelodau neu'ch cefnogwyr ymrwymedig ac aelodau o'r cyhoedd:

Yn ein barn ni, pan fydd modd i ddigwyddiad cyhoeddus neu rali gael ei weld neu ei glywed gan aelodau o'r cyhoedd, neu ddwyn eu sylw fel arall, ni allwch rannu'r costau hyd yn oed os yw'ch aelodau chi ac aelodau o'r cyhoedd yn bresennol.

Rydych yn gwario £7,500 ar ddigwyddiad cyhoeddus yng nghanol tref, lle mae aelodau'ch sefydliad ac aelodau o'r cyhoedd yn bresennol. Yn yr achos hwn, byddai'r costau llawn yn cyfrif tuag at eich gwariant ar weithgarwch ymgyrchu a reoleiddir.

Gwariant tybiannol

Weithiau cewch eitemau neu wasanaethau am ddim neu am bris gostyngol anfasnachol. Gall hyn ddigwydd os bydd unigolyn neu sefydliad arall yn cefnogi eich ymgyrch.

Gwariant tybiannol yw'r gwahaniaeth mewn gwerth rhwng y gyfradd fasnachol am eitem neu wasanaeth a'r pris a dalwch.

Os byddwch yn defnyddio unrhyw eitemau neu wasanaethau a roddir i chi am ddim, neu am bris gostyngol anfasnachol o fwy na 10%, wrth ymgymryd â'ch gweithgareddau ymgyrchu a reoleiddir, gall gwerth y gwariant tybiannol gyfrif tuag at eich terfyn gwario a rhaid ei gofnodi ar eich ffurflen gwariant.

Rhaid i chi gofnodi gwerth masnachol llawn yr eitemau neu'r gweithgareddau hyn:

- cewch yr eitem am ddim neu am ostyngiad anfasnachol o fwy na 10%
- mae'r gwahaniaeth mewn gwerth rhwng y gyfradd fasnachol a'r hyn a dalwch dros £200

Os cewch ostyngiad o 10% neu lai, neu os yw'r gwahaniaeth mewn gwerth yn £200 neu lai, dim ond y swm a dalwyd gennych y mae angen i chi ei gofnodi.

Prisio gwariant tybiannol

Os yw'r cyflenwr yn ddarparwr masnachol, dylech ddefnyddio'r cyfraddau y mae'n eu codi ar gwsmeriaid eraill. Os nad yw'r wybodaeth hon ar gael, dylech ganfod beth mae darparwyr tebyg yn ei godi am yr un nwyddau neu wasanaethau a defnyddio hyn fel y gwerth masnachol.

Dylech gadw cofnod o'r modd y lluniwyd eich prisiad a chadw copïau o unrhyw ddyfynbrisiau a gewch.

Rhaid i'r gwerth a ddatganwch ar eich ffurflen gwariant fod yn asesiad gonest a rhesymol o'r gwerth masnachol.

Gostyngiadau masnachol yw'r rhai sydd ar gael i gwsmeriaid tebyg eraill, fel gostyngiadau ar gyfer swmp-archebion neu ostyngiadau tymhorol.

Gostyngiadau anfasnachol yw gostyngiadau arbennig a roddir i chi, yn benodol, gan gyflenwyr.

Er enghraifft:

Cewch swyddfeydd y gallwch redeg eich ymgyrch ohonynt am ddim, a ddefnyddiwch am dri allan o'r pedwar mis o'r cyfnod a reoleiddir.

Byddai angen i chi gofnodi cyfran briodol o wariant tybiannol yn seiliedig ar y defnydd a wnaed o'r swyddfa:

Cost arferol rhent misol: £1,200

Y gost a godwyd arnoch: £0

Gwariant tybiannol i roi gwybod amdano: £3,600

Staff ar secondiad

Os bydd cyflogwr yn secondio aelod o staff ar gyfer eich ymgyrch, rhaid i chi gofnodi ei gyflog gros ac unrhyw lwfansau ychwanegol fel y gwerth tybiannol.

Nid oes angen i chi gynnwys cyfraniadau yswiriant gwladol na phensiwn y cyflogwr.

Gweithio gyda phlaid neu ymgeisydd

Gwariant wedi'i dargedu a gwariant tybiannol gan neu ar ran plaid wleidyddol

Os byddwch yn penderfynu gweithio gyda phlaid neu ymgeisydd, gellir gwneud hyn mewn sawl ffordd. Yn arbennig:

- efallai y byddwch yn penderfynu darparu nwyddau neu wasanaethau i'w defnyddio gan y plaid neu'r ymgeisydd heb godi tâl neu am bris gostyngol (a elwir yn 'wariant tybiannol')
- gallwch gyflawni gweithgarwch ymgyrchu a reoleiddir gyda'r nod o elwa dim ond un plaid neu unrhyw un o'i hymgeiswyr (a elwir yn 'wariant wedi'i dargedu')

Efallai y bydd hyn yn cael effaith ar p'un a oes angen i chi neu'r plaid neu'r ymgeisydd gyfrif am wariant yr ymgyrch.

Gwariant tybiannol

Os byddwch yn darparu nwyddau, gwasanaethau neu gyfleusterau am ddim, neu am bris gostyngol anfasnachol, i blaid sydd wedyn yn cael eu defnyddio gan y plaid yn ei hymgyrch, ystyriwn hyn yn 'wariant tybiannol' ar ran y plaid wleidyddol. Nid oes rhaid i chi roi cyfrif am y gwariant hwn. Ond bydd yn cyfrif tuag at wariant y plaid a rhaid iddi ei gofnodi.

Gwariant wedi'i dargedu

Mae'r rheolau ar wariant wedi'i dargedu ond yn gymwys:

- i ymgyrchwyr cofrestredig nad ydynt yn bleidiau
- yn ystod cyfnodau a reoleiddir sy'n cynnwys etholiadau cyffredinol Senedd y DU

Nid gwariant tybiannol yw gwariant wedi'i dargedu a bydd yn digwydd pan fyddwch yn targedu eich gweithgarwch ymgyrchu a reoleiddir er budd neu er mwyn hyrwyddo un plaid wleidyddol

neu ei hymgeiswyr yn unig. Er mwyn i'r rheolau ar wariant wedi'i dargedu fod yn gymwys, bydd angen i chi ddefnyddio'r nwyddau, gwasanaethau neu gyfleusterau fel rhan o'ch ymgyrch.

Mae terfynau ar faint y gallwch ei wario ar wariant wedi'i dargedu a bydd y gwariant hwn yn cyfrif tuag at eich terfyn gwariant.

Gweithio gydag ymgyrchwyr eraill nad ydynt yn bleidiau

Os byddwch chi ac ymgyrchwyr eraill nad ydynt yn bleidiau yn gwario arian ar weithgareddau ymgyrchu a reoleiddir fel rhan o ymgyrch ar y cyd, bydd gwahanol reolau ar wario ac adrodd yn gymwys yn dibynnu ar y ffordd rydych yn strwythuro eich ymgyrch ar y cyd.

Cydweithio ag ymgyrchwyr eraill nad ydynt yn bleidiau lle nad oes prif ymgyrchydd

Os ydych yn gweithio gydag ymgyrchwyr eraill nad ydynt yn bleidiau fel rhan o ymgyrch ar y cyd heb brif ymgyrchydd, bydd y gwariant cyfunol ar weithgarwch ymgyrchu a reoleiddir yn cyfrif tuag at derfynau gwariant **pob** ymgyrchydd nad yw'n blaid dan sylw.

Dylai person cyfrifol pob ymgyrchydd sy'n cymryd rhan yn yr ymgyrch ar y cyd sicrhau bod y gwariant cyfunol yn cael ei reoli'n ddigonol fel nad eir uwchlaw'r terfyn gwariant cyffredinol.

Dylech hefyd sicrhau bod system ar waith i rannu ag ymgyrchwyr eraill y swm rydych yn bwriadu ei wario ym mhob rhan o'r DU neu mewn etholaethau penodol er mwyn sicrhau nad ydych yn torri'r terfynau gwariant perthnasol o ganlyniad i wariant pobl eraill.

Ar ôl yr etholiad, fel rhan o'ch ffurflen gwariant, rhaid i chi gofnodi eich gwariant a dylech nodi'r cyfanswm a wariwyd ar yr ymgyrch ar y cyd.

Prif ymgyrchydd sy'n gweithio gydag ymgyrchwyr llai

Fel prif ymgyrchydd, chi fydd yn gyfrifol am roi gwybod am y gwariant ar yr ymgyrch ar y cyd gan ymgyrchwyr llai, yn ogystal â'ch gwariant eich hun. Dylech sicrhau bod eich ymgyrchwyr llai yn eich hysbysu'n rheolaidd am eu gwariant er mwyn sicrhau nad yw cyfanswm y gwariant fel rhan o'r ymgyrch ar y cyd yn mynd uwchlaw'r terfyn gwariant cyffredinol.

Dylech hefyd sicrhau bod system ar waith a fydd yn eich galluogi i sicrhau bod y swm rydych chi neu unrhyw un o'r ymgyrchwyr llai yn bwriadu ei wario ym mhob rhan o'r DU neu mewn etholaethau penodol yn torri'r terfynau gwariant perthnasol.

Ar ôl yr etholiad, fel rhan o'r ffurflen gwariant, bydd angen i chi ddarparu derbynebau ac anfonebau ar gyfer pob taliad dros £200 ar gyfer yr holl wariant yr eir iddo fel rhan o'r ymgyrch ar y cyd. Dylech sicrhau bod gennych drefniant ar waith gyda phob ymgyrchydd llai i gael yr holl dderbynebau ac anfonebau ar gyfer gwariant yr aed iddo gan yr ymgyrchwyr llai fel eich bod yn gallu cyflawni eich rhwymedigaeth gyfreithiol i roi'r rhain i ni ar ôl yr etholiad.

Rhoddion i ymgyrchydd arall nad yw'n blaid

Ni chwmpesir rhoddion i ymgyrchydd arall gan y rheolau ymgyrchu ar y cyd.

Priodoli gwariant

Ceir rheolau ar y ffordd y dylai eich gwariant gael ei briodoli ar draws y rhannau gwahanol ac i etholaethau seneddol. Gelwir y rhain yn 'rheolau priodoli'.

Wrth gynllunio eich ymgyrch, dylech fod yn ymwybodol o'r holl derfynau gwario sy'n gymwys a'r gofyniad i briodoli gwariant ledled Cymru, Lloegr, yr Alban, a Gogledd Iwerddon ac i etholaethau seneddol.

Os na ddilynwch y rheolau priodoli yn ofalus, gallech dorri'r terfynau gwario.



Er mwyn priodoli eich gwariant, bydd angen i chi wybod sawl sedd Seneddol sydd yn y DU a sut y cânt eu dosbarthu rhwng rhannau o'r DU:

Rhan o'r DU	Seddi Seneddol yn y DU
Lloegr	533
Yr Alban	59
Cymru	40
Gogledd Iwerddon	18
Cyfanswm	650

Priodoli gwariant ar ymgyrchu etholaethol penodol

Rydym yn galw gweithgarwch ymgyrchu a reoleiddir y mae ei effeithiau wedi'u cyfyngu'n llwyr neu'n sylweddol i etholaeth neu etholaethau **penodol** yn 'ymgyrchu etholaethol penodol'.

Rhaid i wariant ar ymgyrchu penodol gael ei briodoli i'r etholaeth neu'r etholaethau yr effeithir arnynt.

Os byddwch yn cyflawni gweithgareddau ymgyrchu etholaethol penodol mewn mwy nag un etholaeth, bydd angen i chi briodoli'r gwariant yn gyfartal i nifer yr etholaethau lle cyflawnir yr ymgyrchu.

Mewn cyfnod a reoleiddir ar gyfer etholiad cyffredinol Senedd y DU, rhaid i chi sicrhau nad ydych yn gwario mwy na'r uchafswm o £9,750 mewn unrhyw un etholaeth.



Mae gwariant etholaethol penodol hefyd yn cyfrif yn erbyn y terfyn gwariant ar gyfer y rhan neu'r rhannau o'r DU lle lleolir yr etholaeth benodol neu'r etholaethau penodol. Felly, os byddwch yn cyflawni gweithgareddau ymgyrchu etholaethol penodol mewn nifer o etholaethau mewn unrhyw ran o'r DU, rhaid i chi sicrhau eich bod yn aros o fewn y terfyn gwariant ar gyfer y rhan honno.

Gallwch gyflawni gweithgareddau ymgyrchu etholaethol penodol mewn mwy nag un etholaeth ond nid yw'n cynnwys ymgyrch genedlaethol ledled rhan o'r DU (Cymru, Lloegr, yr Alban neu Ogledd Iwerddon).

Er enghraifft:

Mewn cyfnod a reoleiddir ar gyfer etholiad cyffredinol Senedd y DU, rydych yn gwario £15,000 yn gosod hysbysebion mewn papur newydd lleol. Mae'r hysbysebion yn ymwneud â materion lleol sydd ond yn berthnasol i dair etholaeth seneddol yng Nghymru. Dim ond yn y tair etholaeth seneddol hyn y caiff y papur newydd ei ddsbarthu.

Ymgyrchu etholaethol penodol yw hwn felly rhaid i'r gwariant gael ei briodoli'n deg i bob etholaeth yr effeithir arni:

Cyfran o wariant a briodolir i bob un o'r tair etholaeth yng Nghymru:

$$£15,000 \div 3 = £5,000$$

Rydych wedi gwario £5,000 felly rydych o fewn y terfyn o £9,750 ar gyfer pob etholaeth. Rydych wedi gwario £15,000 tuag at y terfyn gwariant o £44,000 yng Nghymru.

Priodoli gwariant mewn un neu ragor o rannau o'r DU

Gwariant mewn un rhan

Os mai dim ond mewn un rhan o'r DU rydych yn ymgyrchu, rhaid i chi briodoli'r gwariant yn gyfartal i bob etholaeth yn y rhan honno. Mae'r gwariant a briodolir i bob etholaeth yn cyfrif yn erbyn y cyfanswm ym mhob etholaeth a thuag at y terfyn gwariant ar gyfer y rhan honno o'r DU.

Er enghraifft:

Rydych yn gwario £35,000 ar lunio deunydd etholiad sy'n canolbwyntio'n benodol ar fater polisi sy'n berthnasol i Loegr, a chaiff ei ddsbarthu ledled Lloegr. Rhaid i chi briodoli'r gwariant yn gyfartal i bob un o'r 533 o etholaethau yn Lloegr:

$$£35,000 \quad \div \quad 533 \quad = \quad £65.67$$

Rydych wedi gwario £35,000 tuag at derfyn gwariant Lloegr a £65.67 tuag at gyfanswm yr etholaeth.

Gwariant mewn mwy nag un rhan o'r DU

Os byddwch yn ymgyrchu mewn **mwyn nag un rhan o'r DU** ac yn cynnal ymgyrchoedd gwahanol ym mhob un, rhaid i chi briodoli'r gwariant yr eir iddo mewn perthynas â phob rhan dan sylw yn unol â nifer yr etholaethau yn y rhan honno.

Dim ond hyd at £465,300 y gallwch ei wario os oes gennych ymgyrchoedd ar wahân na chânt eu cynnal ledled y DU.

Er enghraifft:

Rydych yn cynnal rali yn Llundain a rali arall yng Nghaeredin, ac yn gwario £30,000 ar bob un. Mae'r naill rali a'r llall yn canolbwyntio ar fater sy'n berthnasol i gyd-destun Lloegr a chyd-destun yr Alban, ac mae wedi'i hyrwyddo'n eang yn y rhan benodol honno.

Ym mhob achos, nid yw'r raliau yn debygol o effeithio ar bleidleiswyr mewn etholaeth benodol nac etholaethau penodol yn Lloegr na'r Alban, ac ni fyddent yn cael eu hystyried yn ymgyrchu etholaethol penodol.

Byddai'r raliau yn effeithio ar Loegr a'r Alban yn y drefn honno:

- rhaid i'r gwariant ar y rali yn Llundain gael ei briodoli'n gyfartal ledled y 533 o etholaethau yn Lloegr
- rhaid i'r gwariant ar y rali yng Nghaeredin gael ei briodoli'n gyfartal ledled y 59 o etholaethau yn yr Alban

Rhaid i chi wneud y cyfrifiadau canlynol:

Cyfran o wariant a briodolir i bob un o'r 533 o etholaethau yn Lloegr:

$$£30,000 \quad \div \quad 533 \quad = \quad £56.29$$

Cyfran o wariant a briodolir i bob un o'r 59 o etholaethau yn yr Alban:

$$£30,000 \div 59 = £508.47$$

Yn Lloegr, rydych wedi gwario £30,000 tuag at y terfyn cenedlaethol, y mae £56.29 yn cyfrif tuag at gyfanswm etholaeth pob etholaeth.

Yn yr Alban, rydych wedi gwario £30,000 tuag at y terfyn cenedlaethol o £55,400, y mae £508.47 yn cyfrif tuag at gyfanswm etholaeth pob etholaeth.

Priodoli gwariant a reoleiddir ledled y DU

Os ewch i wariant mewn perthynas â'r DU gyfan, rhaid i chi briodoli'r gwariant yn gyfartal i bob un o 650 o etholaethau'r DU. Mae'r gwariant a briodolir i bob etholaeth yn cyfrif tuag at gyfanswm gwariant pob etholaeth.

Rhaid i chi hefyd briodoli'r gwariant rhwng Cymru, Lloegr, yr Alban a Gogledd Iwerddon er mwyn sicrhau eich bod yn aros o fewn y terfyn ar gyfer pob un.

Pennir y gyfran o wariant ledled y DU a briodolir i bob rhan drwy ddefnyddio cymhareb nifer y seddi Seneddol yn San Steffan sydd ym mhob rhan o gymharu â chyfanswm nifer y seddi yn Senedd y DU.

Cyfanswm ledled y DU

O ganlyniad i'r ffordd y mae'r rheolau priodoli yn gweithio, y mwyaf y gallai ymgyrch a gynhelir ledled y DU ei wario fyddai £390,000, yn hytrach na chyfanswm y terfynau gwario ym mhedair rhan y DU, sef £465,300.

Y rheswm am hyn yw gyda swm o £390,000, byddai'r gwariant ar ymgyrchu a briodolir i Loegr o dan y rheolau wedi cyrraedd y terfyn gwario o £319,800 yn Lloegr.

Dim ond hyd at £465,300 y gallwch ei wario os oes gennych ymgyrchoedd ar wahân na chânt eu cynnal ledled y DU.

Er enghraifft:

Fel rhan o ymgyrch a gynhelir ledled y DU ar gyfer etholiad cyffredinol Senedd y DU, rydych yn gwario £75,000 ar lunio a dosbarthu deunydd etholiad ar y cyfryngau cymdeithasol.



Rhaid i chi briodoli swm cyfartal i bob un o'r 650 o etholaethau yn y DU:

$$£75,000 \div 650 = £115.38$$

Rhaid i chi gyfrif y £115.38 tuag at y terfyn o £9,750 ym mhob etholaeth.

Nesaf, mae angen i chi wneud y cyfrifiadau canlynol er mwyn gweithio allan y gyfran o wariant i'w gyfrif yn erbyn y terfyn ar gyfer pob rhan:

Cyfran Lloegr o'r ymgyrch ledled y DU:

$$(533 \div 650) \times £75,000 = £61,500.00$$

Cyfran yr Alban o'r ymgyrch ledled y DU:

$$(59 \div 650) \times £75,000 = £6,807.69$$

Cyfran Cymru o'r ymgyrch ledled y DU:

$$(40 \div 650) \times £75,000 = £4,615.38$$

Cyfran Gogledd Iwerddon o'r ymgyrch ledled y DU:

$$(18 \div 650) \times £75,000 = £2,076.92$$

Bydd y gyfran ymgyrchu ledled y DU a briodolir i bob rhan yn cyfrif yn erbyn y terfyn gwariant ar gyfer y rhan honno.

Priodoli cyfuniad o wariant etholaethol penodol a gwariant arall a reoleiddir

Mewn cyfnod a reoleiddir ar gyfer etholiad cyffredinol Senedd y DU, rhaid i chi sicrhau nad ydych yn gwario mwy na £9,750 mewn unrhyw etholaeth seneddol benodol, gan gynnwys:

- gwariant etholaethol penodol yn yr etholaeth benodol honno
- cyfran unrhyw wariant ymgyrchu arall a reoleiddir y mae'n rhaid ei briodoli i'r etholaeth honno

Er mwyn sicrhau eich bod yn aros o fewn y terfyn gwariant etholaethol, dylech gadw cofnod o faint o wariant ymgyrchu a reoleiddir y mae'n rhaid ei briodoli i bob un.

Os credwch ei bod yn bosibl y gallech gyflawni cyfuniad o weithgarwch ymgyrchu etholaethol penodol ac unrhyw weithgarwch ymgyrchu arall a reoleiddir sy'n cwmpasu'r etholaeth honno, rhaid i chi sicrhau nad ydych yn gwario'r

£9,750 i gyd, mewn etholaeth unigol, ar weithgarwch ymgyrchu etholaethol penodol.

Y rheswm dros hyn yw, os byddech wedyn yn gwario unrhyw beth ar ymgyrch ledled y DU, neu ymgyrch mewn unrhyw gyfuniad o Gymru, Lloegr, yr Alban neu Ogledd Iwerddon a oedd yn cynnwys yr etholaeth honno, byddech yn mynd dros y terfyn o £9,750 o ganlyniad i'ch gwariant arall ar weithgarwch ymgyrchu a reoleiddir o'i briodoli i'r etholaeth honno.

Cyfuniad o ymgyrchu etholaethol cenedlaethol a phenodol

Yn ystod y cyfnod a reoleiddir ar gyfer etholiad cyffredinol Senedd y DU, rydych yn gwario £10,000 ar ymgyrch ledled Gogledd Iwerddon. Rydych hefyd yn bwriadu gwneud peth gwaith ymgyrchu etholaethol penodol ym Melffast.

Er mwyn cyfrifo'r swm sydd gennych ar ôl i'w wario ledled Gogledd Iwerddon, byddech:

- yn tynnu gwariant yr ymgyrch genedlaethol o derfyn gwariant Gogledd Iwerddon

Cyfrifir hyn fel a ganlyn:

Cyfanswm y gwariant sy'n weddill ledled Gogledd Iwerddon

£46,100 - £10,000 = £36,100

Yna, rhaid i chi briodoli'r gwariant hwn yn gyfartal rhwng y 18 o etholaethau yng Ngogledd Iwerddon, a thynnu'r gyfran ar gyfer pob etholaeth o'r terfyn gwariant etholaethol:

Cyfran gwariant Gogledd Iwerddon a briodolir fesul etholaeth:

£10,000 ÷ 18 = £555.56

Y cyfanswm sy'n weddill i'w wario mewn unrhyw etholaeth yng Ngogledd Iwerddon:

£9,750 - £555.56 = £9,194.44

Dyma uchafswm y gwariant y gallwch fynd iddo yn y dyfodol mewn unrhyw un o'r 18 o etholaethau, naill ai o ganlyniad i wariant etholaethol penodol neu o ganlyniad i wariant ar weithgareddau ymgyrchu eraill a reoleiddir a briodolir i etholaeth benodol.

Yna, rydych yn bwriadu gwario £5,000 ar ymgyrch benodol sy'n effeithio ar bedair etholaeth ym Melffast. Rhaid i chi

[Rheoli gwariant ar ymgyrchu rhai nad ydynt yn bleidiau](#)

sicrhau y byddech yn aros o fewn terfyn gwariant etholaethol pob un o'r pedair etholaeth:

- priodoli costau eich ymgyrch etholaethol benodol i bob etholaeth yn gyfartal

Cyfran gwariant ymgyrch benodol a briodolir fesul etholaeth:

$$£5,000 \quad \div \quad 4 \quad = \quad £1,250$$

Cyfanswm gwariant etholaethol pedair etholaeth Belfast

$$£555.56 \quad + \quad £1,250 \quad = \quad £1,805.56$$

Rhydd hyn wariant cronnus o £1,805.56 ym mhob un, sy'n golygu na fydddech yn mynd dros y terfyn gwariant o £9,750 ar gyfer unrhyw un o'r pedair etholaeth.

Gan ddefnyddio Gogledd Belfast fel enghraifft, byddai gennych £7,944.44 ar ôl i'w wario ar weithgareddau ymgyrchu pellach yn yr etholaeth honno.

Bydd y gwariant o £5,000 ar yr ymgyrchu etholaethol benodol hefyd yn effeithio ar yr hyn y gallwch ei wario ar ymgyrchoedd pellach ledled Gogledd Iwerddon.

Rhaid tynnu hwn o'r £36,100 sydd ar ôl yn dilyn yr hyn a wariwyd ledled Gogledd Iwerddon, gan adael cyfanswm o £31,100 ar ôl.

Rheoli eich gwariant ar ymgyrchu a reoleiddir

Awdurdodi a thalu gwariant ymgyrchu

Dim ond yr 'unigolyn cyfrifol' a gofrestrwyd gyda ni a phobl a awdurdodwyd yn ysgrifenedig gan yr unigolyn cyfrifol a all fynd i gostau yn ymwneud â gweithgareddau ymgyrchu a reoleiddir a gwneud taliadau mewn perthynas â nhw.

Er enghraifft, gall rhywun gael ei awdurdodi gan yr unigolyn cyfrifol i wario arian ar eitemau penodol, neu hyd at swm penodol.

Rhaid i bob taliad dros £200 gael ei gefnogi gan anfoneb neu dderbynneb.

Pan fydd unigolyn awdurdodedig yn gwneud taliad dros £200, rhaid iddo ddarparu –

- yr anfoneb neu'r dderbynneb ategol
- hysbysiad ei fod wedi gwneud y taliad

i'r unigolyn cyfrifol cyn gynted â phosibl ar ôl gwneud y taliad.

Mae'r rheolau hyn ar waith er mwyn sicrhau y gellir rheoli gwariant a'i gofnodi ac adrodd arno yn gywir.

Dylech sicrhau bod eich staff, eich gwirfoddolwyr a'ch ymgyrchwyr yn gwybod pwy all ac na all fynd i gostau.

Ystyr 'mynd i wariant' neu 'fynd i gostau' yw gwneud ymrwymiad cyfreithiol i wario arian, fel cadarnhau archeb.

Terfynau amser ar gyfer derbyn a thalu anfonebau

Derbyn anfonebau gan gyflenwyr

Rhaid i chi gael eich holl anfonebau gan gyflenwyr o fewn 30 diwrnod i ddiwedd yr etholiad.

Os na chewch anfoneb o fewn 30 diwrnod, ni ddylech ei thalu ar ôl y cyfnod hwnnw heb gael gorchymyn llys i wneud hynny. Dylech hysbysu eich cyflenwyr o hyn.

Talu anfonebau gan gyflenwyr

Rhaid i chi dalu eich holl anfonebau gan gyflenwyr o fewn 60 diwrnod i ddiwedd yr etholiad.

Os na thalwch anfoneb o fewn 60 diwrnod, rhaid i chi gael gorchymyn llys i allu gwneud hynny.



Important

Gall fod yn drosedd talu hawliad heb ei dalu heb orchymyn llys.

Cofnodi gwariant ar ymgyrchu a reoleiddir

Os ydych yn gwario neu'n bwriadu gwario mwy nag £20,000 yn Lloegr neu £10,000 yng Nghymru, yr Alban neu Ogledd Iwerddon rhaid i chi gofrestru â ni fel ymgyrchydd nad yw'n blaid a'n hysbysu am eich holl wariant ar ymgyrchu a reoleiddir.

Yn eich cofnodion, dylech gynnwys pa categori o wariant y mae pob eitem yn syrthio iddo. Bydd angen i chi anfon y wybodaeth hon atom ar eich ffurflen gwariant ar ôl yr etholiad. Rhaid i chi hefyd gadw anfonebau neu dderbynebion ar gyfer unrhyw daliadau dros £200.



Rhaid i bob cost gynnwys TAW, hyd yn oed os gallwch adennill taliadau TAW.

Beth sydd angen i chi roi gwybod amdano

Ar gyfer pob eitem o wariant, rhaid i chi nodi'r wybodaeth ganlynol ar eich ffurflen gwariant:

- ar gyfer beth roedd y gwariant, er enghraifft, taflenni neu hysbysebu
- enw a chyfeiriad y cyflenwr
- y swm neu'r gwerth
- ar ba ddyddiad y gwnaethoch wario'r arian

Eitemau a roddir am ddim

Os cewch eitemau am ddim rhaid i chi nodi gwerth marchnad llawn yr eitem (y gwariant tybiannol). Gallwch ganfod sut i wneud hyn ar dudalen 16.

Eitemau a roddir am bris gostyngol anfasnachol

Yn yr un modd, os cewch eitem am bris gostyngol anfasnachol o fwy na 10%, ac mae'n werth mwy na £200, rhaid i chi nodi gwerth marchnad llawn yr eitem (y gwariant tybiannol).

Os bydd gan eitem werth o fwy na £500, ac os caiff ei rhoi am ddim neu am bris gostyngol anfasnachol, gall yr eitem hon hefyd fod yn rhodd.

Adrodd ar ôl yr etholiad

Rhaid i chi roi gwybod i ni am eich gwariant ar ymgyrchu a'ch rhoddion ar ôl yr etholiad.

Rhaid i'ch ffurflen gwariant gynnwys y canlynol:

- yr etholiad neu'r etholiadau y mae'r ffurflen yn gymwys iddo/iddynt
- cofnodion o'ch gwariant a'ch rhoddion
- anfonebau a derbynebion ar gyfer unrhyw daliad dros £200
- manylion unrhyw hawliadau sydd heb eu talu neu y mae anghydfod yn eu cylch
- manylion unrhyw wariant tybiannol
- datganiad gan yr 'unigolyn cyfrifol' i ddweud bod y ffurflen yn gyflawn a chywir

Ar gyfer pob eitem o wariant, rhaid i chi gynnwys:

- enw a chyfeiriad y cyflenwr
- swm y gwariant yr aed iddo
- dyddiad y gwariant
- y dyddiad y cyflwynwyd yr hawliad am daliad
- dyddiad y taliad

Mae ffurflenni ar gyfer eich gwariant a'ch rhoddion ar gael yn [Ymgyrchwyr nad ydynt yn bleidiau – Comisiwn Etholiadol](#).

Os ydych wedi gwario dros £250,000 ar eich ymgyrch, bydd angen i chi hefyd gynnwys adroddiad gan archwilydd cymwys.

Gofynion adrodd ychwanegol mewn etholiad cyffredinol Senedd y DU

Yn yr etholiadau hyn, mae gofynion adrodd ychwanegol:

- rhaid i chi roi rhestr i ni o'r holl etholaethau lle gwnaethoch wario dros £7,800
- rhaid i chi roi rhestr fanwl o'r treuliau yr aed iddynt yn yr etholaethau hynny
- rhaid i chi nodi pob rhodd sydd dros £7,500 (naill ai fel rhodd unigol neu sawl rhodd oddi wrth un ffynhonnell) cyn ac ar ôl yr etholiad

Important

Mewn rhai etholiadau, rhaid i chi roi gwybod am rai rhoddion cyn etholiad. Gelwir hyn yn adrodd cyn y bleidlais.

Important

Mae'n drosedd gwneud datganiad ffug.


- rhaid i chi hefyd gynnwys yr holl roddion eraill sy'n werth mwy na £500 ond llai na £7,500. Nid oes angen i chi roi unrhyw wybodaeth arall am y rhoddion hyn
- rhaid i chi ddatgan pob rhodd rydych wedi ei chofnodi mewn adroddiadau ar roddion cyn y bleidlais
- efallai y bydd angen i chi gyflwyno datganiad cyfrifon os nad oes rhaid i chi lunio datganiad o'r fath yn unol â chyfraith arall ar hyn o bryd

Dyddiadau cau ar gyfer adroddiadau ar ymgyrchu

Bydd y dyddiad y mae'n rhaid i chi roi gwybod i ni yn dibynnu ar faint rydych yn ei wario ar eich ymgyrch.

Cyhoeddwn y dyddiadau cau hyn yn ein canllawiau blwyddyn-benodol ar wahân, sydd ar gael ar ein gwefan. Dylech gyfeirio at y canllawiau hyn er mwyn sicrhau eich bod yn gwybod pryd mae'r dyddiad cau.

Fodd bynnag, fel canllaw, dangosir y dyddiadau cau cyffredinol isod.



Os ydych wedi gwario dros £250,000, bydd angen i chi hefyd ddarparu adroddiad gan archwilydd.

Gallech gael eich cosbi os na chyflwynwch eich ffurflen ar amser.

Sut y gallwn helpu

Mae rhagor o wybodaeth ar gael yn y dogfennau canllaw a awgrymwyd gennym yn y ddogfen hon, neu gallwch weld ein holl ganllawiau a'n hadnoddau diweddaraf ar ein gwefan. Gallwch hefyd gysylltu â ni ar un o'r rhifau ffôn neu gyfeiriadau e-bost isod. Rydym yma i helpu, felly cysylltwch â ni.

Ffoniwch ni ar:

- Lloegr: 0333 103 1928 pef@electoralcommission.org.uk
- Yr Alban: 0333 103 1928
infoscotland@electoralcommission.org.uk
- Cymru: 0333 103 1929
gwybodaeth@comisiwnetholiadol.org.uk
- Gogledd Iwerddon: 0333 103 1928
infonorthernireland@electoralcommission.org.uk

Ewch i www.comisiwnetholiadol.org.uk

Rydym yn croesawu adborth ar ein canllawiau - e-bostiwch ni yn: pef@electoralcommission.org.uk
